

# Sut mae Cynghorau Cymuned a Thref yn Cefnogi Cynhwysiant Digidol?

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## Cip cyflym:


**Mae cynghorau cymuned a thref ledled Cymru yn mynd ati o ddifrif i bontio'r bwlch digidol a hyrwyddo cynhwysiant digidol trwy fentrau amrywiol.**

**Mae targedu'r cymorth yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall pawb sy'n byw yng Nghymru chwarae rhan lawn yn y byd digidol.**

CYNGOR CYMUNED COEDPOETH COMMUNITY COUNCIL

Mae Cyngor Cymuned Coedpoeth yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gweithdai TG am ddim a chefnogaeth i wella sgiliau pobl leol.

Mae'r cyrsiau'n cynnwys:
Defnyddio gliniadur
Defnyddio ebost
Diogelwch ar-lein
Chwilio'r we



TG SYLFAENOL

Cwrs am ddim i ddysgu sut i ddefnyddio eich Sgiliau TG Sylfaenol!

Arweiniad i ddechreuwyr ar sut i ddefnyddio gliniadur gan gynnwys:

- Defnyddio e-bost
- Diogelwch Ar-lein
- Chwilio'r we

Wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer pobl 19+ oed sy'n byw yn Wrecsam a Sir y Fflint.

13eg Mai - 17eg Mehefin, 2025

10:00 y.b - 12:00 y.p

Old Carnegie Library, Ffordd Parc, Coedpoeth, LL11 3TD

RHAID CADW LLE!

01978 757524

training@groundworknorthwales.org.uk

groundworktraining.org.uk

## Heriau

Mae band eang cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, costau uchel peiriannau a'r rhyngrwyd, a sgiliau digidol amrywiol yn cyfrannu at eithrio digidol—sy'n golygu fod llai o bobl yn gallu cael gwasanaethau, addysg, swyddi, a chysylltiadau cymdeithasol, ac yn dyfnhau anghydraddoldebau sy'n bod yn barod.

## Atebion

Gall cynghorau cymuned a thref ddarparu band eang am ddim, peiriannau am bris is neu trwy eu benthyca, a hyfforddiant sgiliau digidol lleol trwy lyfrgelloedd, hybiau, a gwaith allgymorth.
Trwy bartneru gyda mudiadau lleol a rhwydweithiau cynhwysiant digidol, gallant gyrraedd y bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf, a'u helpu i gau'r rhaniad digidol a galluogi mwy o bobl i fanteisio ar wasanaethau, addysg, a chyfleoedd

**HYFFORDDIANT DIGIDOL:** Trwy gael grantiau neu weithio gyda phartneriaid, mae cynghorau cymuned a thref yn darparu hyfforddiant digidol i helpu pobl leol i dderbyn gwasanaethau yn ddiogel ac annibynnol.

4G **GWASANAETHAU RHYNGRWYD**: Mae Wi-Fi rhad ac am ddim mewn adeiladau cymunedol, ynghyd â chyngor a gallu cael data symudol am gost isel trwy'r Good Things Foundation, yn gwella mynediad digidol.

**CAEL GAFAEL AR OFFER:** Mae darparu offer TG a chyfleusterau cynadledda yn helpu pobl i ymuno â chyfarfodydd rhithiol a chadw cysylltiad.

**CYMORTH DIGIDOL:** Mae sesiynau a Chaffis Galw Heibio Digidol gyda gwirfoddolwyr yn cynnig cefnogaeth ymarferol gyda thasgau ar-lein.




Gwyliwch ein Gweminar Pontio'r Bwlch Digidol Un Llais Cymru yma

CYNGOR TREF ABERMAW BARMOUTH TOWN COUNCIL

**Mae Cyngor Cymuned Abermaw yn partneru gyda Phrosiect Tanio Bermo i ddarparu mentrau digidol a chefnogi ail-bwrpasu.**
**Mae'r Caffi Trwsio yn cynnwys adnewyddu gliniaduron sydd wedyn ar gael i bobl leol.**
**Maen nhw wedi cael arian i ddarparu gweithdai digidol gan gynnwys:**

- Ffonau Clyfar i Ddechreuwyr
- Inkscape i greu graffeg
- Argraffu 3D a defnydd o argraffydd 3D
- Argraffu ar finyl a defnydd o wasg finyl

# Impact

Mae gwaith cynghorau cymuned a thref ar gynhwysiant digidol yn helpu pobl leol i gadw cysylltiad, dod o hyd i wasanaethau hanfodol, adeiladu hyder gyda thechnoleg, a chwarae rhan lawnach mewn bywyd modern sy'n digwydd fwy a mwy ar-lein.


Trwy wella sgiliau a mynediad digidol, mae cynghorau cymuned a thref yn helpu pobl i arbed arian trwy wasanaethau ar-lein, dod o hyd i well prisiau, rheoli eu harian yn rhwyddach, a lleihau costau teithio—gan gynnig cymorth hollbwysig yn ystod yr argyfwng costau byw.

# Mwy o Enghreifftiau o Arfer Da

"Erbyn hyn gallaf gael gafael ar y Meddyg, archebu bwyd ar-lein ac ati. Rwyf yn ddiolchgar i'r bobl a redodd y cwrs am eu holl waith caled –- ac amynedd."

Mae **Cyngor Cymuned Rhossili** wedi datblygu prosiect Hwb i wella ymgysylltu digidol, trwy ddadansoddi anghenion y gymuned. Mae'r Hwb yn darparu offer TG, Wi-Fi am ddim, cefnogaeth barhaus, a gwefan hawdd ei defnyddio yn cynnwys gwybodaeth a gweithgareddau lleol.

Cynhaliwyd gweithdai rhyngweithiol er mwyn adeiladu sgiliau a hyder digidol. Roedd y sesiynau'n rhad ac am ddim, heb unrhyw jargon, ac wedi'u teilwra i anghenion unigol, ac ar gyflymdra'r mynychwyr, a chymerodd cyfanswm o 108 bobl ran.. Ariannwyd y prosiect gyda £10,223.57 o Gronfa Datblygu Gwledig Cyngor Dinas Abertawe, a gefnogwyd gan arian cyfatebol trwy amser gwirfoddolwyr.




Mae **Cyngor Tref Llwchwr** wedi partneru gyda Rhaglen Eiriolydd Digidol Cwmpas i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr i roi'r sgiliau iddyn nhw gefnogi pobl i fynd ar-lein TDatblygodd eu Prosiect Eiriolwyr Digidol yn gaffi digidol cymunedol misol sy'n cynnig cyswllt TG a wifi am ddim gyda chefnogaeth ddigidol.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithiogyda swyddogion PCSO ac erbyn hyn maen nhw'n darparu gliniadur neu dabled i bobl




Mae'r prosiect yn helpu cael gwared â rhwystrau rhag defnyddio gwasanaethau digidol ac mae'n cynnig lle diogel, cefnogol i bobl adeiladu sgiliau a hyder ar-lein.

Fel aelodau o'r Rhwydwaith Cynhwysiant Digidol Cenedlaethol, mae **Cyngor Cymuned Bedlinog a Threlewis** yn darparu data symudol am ddim i bobl leol sy'n profi tlodi data neu'n byw ar incwm isel.




Trwy ddarparu data symudol, mae'r Cyngor yn helpu sicrhau y gall pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol gael gafael ar wasanaethau hanfodol, cadw cysylltiad gyda'r teulu a rhwydweithiau cymorth, a chwarae rhan lawnach ym mywyd y gymuned.

# Cyllid & Grymoedd

Mae ar bob cyngor cymuned yng Nghymru angen pwerau cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwahanol wasanaethau a chefnogaeth i'r cymunedau lleol. Mae'r pwerau hyn, a roddir trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau a chynlluniau i wella lles ac ansawdd bywyd eu preswylwyr. Gall pwerau a chyfiawnhad amrywio, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol.

I gael cyngor a chanllawiau, mae croeso i gynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru.
gweinydd@unllaiscymru.cymru

## Eisiau Gwybod Mwy?

**FEr mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales https://bit.ly/3KYHftK Un Llais Cymru